

## Hysbysiad i feddiannydd arfaethedig

**Ffurflen Gwybodaeth i Brynwr (hysbysiad i feddiannydd arfaethedig)**  
**(ffurflen i'w chwblhau gan y gwerthwr a'i rhoi i'r prynwr arfaethedig)**

I  [mewnosoder enw'r prynwr arfaethedig]

Gan  [mewnosoder enw a chyfeiriad y gwerthwr]

### Adran 1 – gwybodaeth ariannol

#### (i) Pris arfaethedig y gwerthiant

Pris gwerthu'r cartref symudol yw £  [mewnosoder swm]

#### (ii) Swm y comisiwn sy'n daladwy i berchennog y safle

Os byddwch yn prynu'r cartref symudol, bydd yn ofynnol i chi ddidynnu'r swm o £  [mewnosoder swm]

o bris y gwerthiant a thalu'r swm hwn yn uniongyrchol i gyfrif banc perchennog y safle ar ôl cwblhau'r gwerthiant ac aseinio'r cytundeb [gweler nodyn (i)].

#### (iii) Ffi am y llain

Swm y ffi am y llain sy'n daladwy i berchennog y safle yw £  [mewnosoder y swm]

yr wythnos    y mis    bob chwarter    y flwyddyn    [ticiwch fel y bo'n briodol]

Mae'r ffi am y llain yn daladwy ar  [mewnosoder y diwrnod/dyddiad y mae'n daladwy]

Dyddiad yr adolygiad nesaf o'r ffi am y llain yw  [mewnosoder y dyddiad]

Mae'r gwasanaethau canlynol wedi eu cynnwys yn y ffi am y llain:

## Ôl-ddyledion y ffi am y llain a/neu daliadau sy'n daladwy o dan y cytundeb

Mae gen i ôl-ddyledion Does gen i ddim ôl-ddyledion [dileer fel y bo'n briodol] o ran y ffioedd am y llain.

Swm yr ôl-ddyledion yw £

[mewnosoder y swm sydd heb ei dalu]

ar gyfer y cyfnod rhwng  [mewnosoder y dyddiad dechrau] a  [mewnosoder y dyddiad gorffen]

Rwyf wedi ymrwymo i'r cytundeb canlynol gyda pherchennog y safle er mwyn clirio'r ôl-ddyledion.

### (iv) Y dreth gyngor

Band prisio'r dreth gyngor sy'n berthnasol i'r cartref symudol yw  [mewnosoder band prisio'r dreth gyngor]

### (v) Benthyciadau heb eu talu sydd wedi eu sicrhau ar y cartref symudol

Myfi yw perchennog cyfreithiol y cartref symudol yr wyf yn ei werthu gyda meddiant gwag, ac rwy'n cadarnhau nad oes benthyciadau heb eu talu sydd wedi eu sicrhau ar y cartref symudol.

Llofnod(ion):

## Adran 2 – Gwybodaeth am gytundeb gwerthwr [gweler nodyn (ii)]

Cafodd y cytundeb hwn ei wneud / ei aseinio i mi [dileer fel y bo'n briodol] ar  [mewnosoder dyddiad]

### Nodyn Pwysig

Os cafodd y cytundeb ei wneud ar 1 Hydref 2014 neu wedi hynny neu os cafodd ei aseinio i'r gwerthwr ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, nid yw'n ofynnol i'r gwerthwr hysbysu perchennog y safle am ei fwriad i werthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb.

Os cafodd y cytundeb ei wneud rhwng y gwerthwr a pherchennog y safle cyn 1 Hydref 2014 neu os cafodd ei aseinio i'r gwerthwr cyn y dyddiad hwnnw, yna os ydych chi a'r gwerthwr yn penderfynu bwrw ymlaen â'r trafodiad, bydd yn ofynnol i'r gwerthwr yn ôl y gyfraith hysbysu perchennog y safle am ei fwriad i werthu ei gartref symudol ac aseinio'r cytundeb i chi. Bydd hefyd yn ofynnol i'r gwerthwr roi gwybodaeth benodol amdanoch chi i berchennog y safle y bydd yn ofynnol i chi gadarnhau ei dilysrwydd drwy gwblhau 'hysbysiad o'r bwriad i werthu' y bydd y gwerthwr yn ei anfon at berchennog y safle. Bydd gan berchennog y safle gyfnod o 21 o ddiwrnodau, gan ddechrau gyda'r dyddiad pan dderbyniodd yr hysbysiad o'r bwriad i werthu, pan gaiff wneud cais i dribiwnlys, ar un o'r seiliau a ragnodir yn rheoliad 7 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014, am orchymyn gwrthod er mwyn atal y gwerthiant rhag mynd rhagddo.

Ym mhob achos fodd bynnag, nid oes angen i chi gysylltu â pherchennog y safle yn uniongyrchol cyn cwblhau gwerthiant y cartref symudol. Os bydd y perchennog neu rywun ar ran y perchennog yn cysylltu â chi, nid oes angen i chi ddarparu unrhyw fanylion personol neu fanylion am y trafodiad arfaethedig ar hyn o bryd. Os byddwch yn bwrw ymlaen â'r pryniant, byddwch yn gorfod cwblhau'r aseiniad yn unol â rheoliad 9 o'r Rheoliadau ac Atodlen 4 iddynt. Bydd hefyd angen i chi hysbysu perchennog y safle am werthiant y cartref symudol ac aseiniad y cytundeb o fewn 7 niwrnod i ddyddiad yr aseiniad, drwy gyflwyno hysbysiad o aseiniad ar y ffurf a bennir yn Atodlen 5 i'r Rheoliadau.

### Adran 3 – Gwybodaeth am y safle a pherchennog y safle

(i) Enw perchennog (perchnogion) y safle:

[mewnosodwch enw(au)]

(ii) Y cyfeiriad lle gellir cyflwyno hysbysiadau i berchennog/perchnogion y safle:

[mewnosoder cyfeiriad perchennog y safle er mwyn cyflwyno hysbysiadau os yw hwn wedi ei ddarparu i chi, neu pan nad yw'r cyfeiriad hwn wedi ei ddarparu, unrhyw gyfeiriad hysbys arall ar gyfer perchennog y safle]

(iii) Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r safle wedi ei leoli

[mewnosoder enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol]

Manylion unrhyw achosion cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw faterion yn ymwneud â'r cartref symudol, y cytundeb neu'r safle yr ydych yn barti iddo ac sydd wedi cael eu cyhoeddi neu eu cychwyn ond nad yw'r tribiwnlys neu'r llys wedi ei waredu neu eu tynnu'n ôl.

Enw(au)	<input type="text"/>
Llofnodwyd	<input type="text"/>
Dyddiad	<input type="text"/>

## Dogfennau

### Nodiadau pwysig

Mae'n ofynnol i'r gwerthwr ddarparu'r wybodaeth a nodir yn y ffurflen hon a'r dogfennau a restrir isod i'r prynwr arfaethedig o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn cwblhau gwerthiant y cartref symudol ac aseinio'r cytundeb.

Os yw'r prynwr arfaethedig yn cytuno y gall yr wybodaeth a'r dogfennau gael eu darparu llai na 28 o ddiwrnodau cyn dyddiad cwblhau'r gwerthiant ac aseinio'r cytundeb, rhaid i'r prynwr arfaethedig nodi hyn yn ysgrifenedig, gan roi gwybod i'r gwerthwr beth yw ei ddyddiad dewisedig a dylid darparu'r wybodaeth a'r dogfennau erbyn hynny.

Amgaeaf y dogfennau canlynol er gwybodaeth (ticiwch bob dogfen a ddarperir)

- (i) Copi o fy nghytundeb (gan gynnwys telerau ymhlyg) a datganiad ysgrifenedig
- (ii) Copi o unrhyw reolau cyn cychwyn sydd mewn grym
- (iii) Copi o unrhyw reolau safle sydd mewn grym
- (iv) Tystiolaeth ddogfennol o daliadau sy'n daladwy i **berchennog y safle** ar gyfer:
  - Nwy
  - Trydan
  - Dŵr
  - Carthffosiaeth
  - Defnyddio garej, lle parcio neu dŷ allan
  - Unrhyw wasanaethau eraill

**(Os yw'n berthnasol dylid cynnwys manylion ynghylch pryd mae'r taliadau hyn yn daladwy a phryd y mae angen eu hadolygu nesaf)**

- (v) Tystiolaeth ddogfennol am daliadau sy'n daladwy i **drydydd parti** ar gyfer:
  - Nwy
  - Trydan
  - Dŵr
  - Carthffosiaeth
  - Defnyddio garej, lle parcio neu dŷ allan
  - Unrhyw wasanaethau eraill

**(Os yw'n berthnasol dylid cynnwys manylion ynghylch pryd y mae'r taliadau yn daladwy a phryd y dylid eu hadolygu nesaf)**

- (vi) Copi o unrhyw warant ddilys ar gyfer y cartref symudol
- (vii) Manylion unrhyw arolwg o'r cartref symudol, safle neu lain a gynhaliwyd ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis cyn dyddiad yr hysbysiad hwn

Pan nad ydych yn gallu darparu dogfen a restrir uchod, rhowch eglurhad am hyn isod:

### **Nodiadau**

- (i) O dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 y swm uchaf o gomisiwn y gall perchennog y safle ei gwneud yn ofynnol i chi ei dalu yw 10% o'r pris prynu. O dan reoliad 10 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i chi dalu'r comisiwn i berchennog y safle o fewn 7 niwrnod ar ôl derbyn manylion banc perchennog y safle, ac ar ôl hysbysu perchennog y safle am gwblhau'r gwerthiant ac aseinio'r cytundeb.
- (ii) Ystyr cytundeb yw cytundeb o dan adran 48(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys datganiad ysgrifenedig a roddir i'r gwerthwr o dan adran 49(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 pan fo'r gwerthwr yn meddu ar un.

### **Rhybudd i'r gwerthwr:**

Os byddwch yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth hon gallech fod yn agored i hawliad sifil am dorri eich dyletswydd statudol, yn unol â pharagraff 11(6) o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.